**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Niamh Smyth
Cadeirydd Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau yr Oireachtas

22 Hydref 2024

Annwyl Cathaoirleach,

**Cyfarfod Cydbwyllgor y Senedd â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau**

Rwy'n ysgrifennu ar ran dirprwyaeth y Senedd â ymwelodd â'r Oireachtas yn ddiweddar i ddiolch i chi a'ch cyd-Aelodau am gynorthwyo â'n hymweliad. Roeddem wir yn ddiolchgar i chi am eich amser, a'r croeso a roesoch inni yn ein cyfarfod diweddar â'r Seneddwyr Malcolm Byrne a Fintan Warfield.

Mae Iwerddon a Chymru yn rhannu nifer o gysylltiadau diwylliannol – cysylltiad sy'n ymestyn yn ôl i gyfnod y seintiau. Mae'r ddwy genedl yn hynod falch o'n traddodiadau o gân, barddoniaeth a chelf. Mae cadw ein hanes diwylliannol, a chefnogi'r sector diwylliannol ac artistiaid heddiw yn hollbwysig, ac roeddem ni fel Aelodau'n teimlo bod llawer iawn yn cysylltu ein profiadau. Roeddem hefyd yn teimlo bod llawer y gallem ei ddysgu o brofiad Iwerddon, gan gynnwys eich cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer artistiaid, yn ogystal â sut mae llywodraeth Iwerddon wedi dewis cynyddu buddsoddiad yn y celfyddydau.

Ers ein hymweliad cyntaf â chi y llynedd, croesawaf y ffaith bod cydweithredu rhwng ein pwyllgorau a'n seneddau wedi mynd o nerth i nerth. Diolchwn ichi am eich ymgysylltiad parhaus â'n gwaith, a'ch cefnogaeth ar ei gyfer, a byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth, tystiolaeth a phrofiad gyda chi.

Rydym yn gobeithio y gallwn gwrdd â chi wyneb yn wyneb eto yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, fodd bynnag, byddwn i'n gwerthfawrogi pe gallem geisio sefydlu amserlen reolaidd o gyfarfodydd

rhithwir rhwng y ddau ohonom fel Cadeiryddion pwyllgorau.  Gyda'ch cytundeb chi, byddai ein timau yn y Senedd yn falch iawn o wneud trefniadau addas ar gyfer cyfarfod yn y misoedd nesaf.

Unwaith eto, ac ar ran holl Aelodau'r ddirprwyaeth, hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am eich croeso a'ch amser.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Seneddwr Malcolm Byrne a'r Seneddwr Fintan Warfield. Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith gan fod eu Pwyllgorau wedi'u cynrychioli ar yr ymweliad hwn.

Yn gywir, gyda diolch,



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Copi i:  Seneddwr Malcolm Byrne, Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau yr Oireachtas
Seneddwr Fintan Warfield, Pwyllgor Twristiaeth, Diwylliant, y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Cyfryngau yr Oireachtas
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd